**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**12 RHAGFYR 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 12 Rhagfyr 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Bill Crease (Cadeirydd)**<br>Y Cynghorwyr: Tina Claydon, David Coggins Cogan, Gladys Healey, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Billy Mullin, Vicky Perfect a Jason Shallcross<br>Dirprwy: Rob Davies (dros Ant Turton) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: Helen Brown (Aelod Cabinet Tai a Chymunedau), Dave Hughes (Arweinydd y Cyngor), Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Sam Swash ac Andrew Parkhurst a oedd yn bresennol fel arsylwyr |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr: Linda Thew a Linda Thomas (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Richard Jones (Aelod Cabinet Trawsnewid ac Asedau), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol), Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Rheolwr Corfforaethol – Pobl a Datblygu Sefydliadol (cofnodion 67-80)<br>Rheolwr Gwasanaeth – Menter ac Adfywio (cofnod 75)<br>Swyddog Trawsnewid (cofnod 80)<br>Swyddog Gweithredol Strategol a Rheolwr Cyllid Strategol (cofnod 81) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 67. PENODI CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Bill Crease yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor 2024/25.

## 68. PENODI IS-GADEIRYDD (Dolen i’r recordiad)

**PENDERFYNWYD:**

Penodi’r Cynghorydd Jason Shallcross yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**69. <u>DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)</u> <u>(Dolen i'r recordiad)</u>**

Dim.

**70. <u>COFNODION</u> <u>(Dolen i'r recordiad)</u>**

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir.

**71. <u>OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU</u> <u>(Dolen i'r recordiad)</u>**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (eitem rhif 6 ar y rhaglen) am gynnydd camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol ynghyd â diweddariad ar lafar. Cytunodd i geisio cael ymatebion i ymholiadau'r Cynghorydd Ibbotson yng nghyfarfod mis Tachwedd ynglŷn â chostau trosglwyddo gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden, a chostau ychwanegol ar gyfer goleuadau stryd.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**72. <u>RHAGLEN WAITH</u> <u>(Dolen i'r recordiad)</u>**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (eitem rhif 7 ar y rhaglen) ar Raglen Waith bresennol y Pwyllgor a dywedodd y byddai eitem am y Cynllun Ynni Ardal Leol yn cael ei hychwanegu ar gyfer Ionawr 2025.

Gan gytuno â'r Cadeirydd, byddai'r adroddiad y gofynnwyd amdano'n flaenorol gan y Cynghorydd Coggins Cogan am y gwersi a ddysgwyd o'r tân yn Synthite Ltd yn cael ei drefnu yn y Rhaglen Waith nesaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Ibbotson am drefnu cyfarfod ynglŷn â'r eitem hirsefydlog am gaffael tir ar gyfer mynwentydd Sir y Fflint. Gwnaeth gais hefyd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y dyfodol i drafod cynllun Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol ar gyfer gogledd Cymru.

Yn amodol ar y newidiadau hynny, cefnogwyd yr argymhellion.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Rhoi awdurdod i Reolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 73. **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2025/26** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad (eitem rhif 8 ar y rhaglen) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Crynhodd brif benawdau Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru (Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus) a dderbyniwyd y diwrnod cynt, wrth i'r gwaith barhau ar y goblygiadau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd pryderon ynglŷn â'r setliad isel i Sir y Fflint a sut oeddynt yn cyflwyno achos dros gael cyllid tecach. Ymatebodd y swyddogion i amrywiaeth o gwestiynau ar faterion fel incwm a ragwelir o ailgylchu, cyllidebau dirprwyedig ysgolion, a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol amddifadedd.

Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyflwyno cwestiynau manwl ymlaen llaw os yn bosibl, fel y gellid rhoi ymateb llawn.

Cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad, a nodwyd bod y Cynghorydd Ibbotson wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Wedi ystyried adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2025/26, bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad.

## 74. **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25 (MIS 7)** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad (eitem rhif 9 ar y rhaglen) ar sefyllfa Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ym mis 7 2024/25, cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Nododd y swyddogion y pwynt a wnaed gan y Cynghorydd Coggins Cogan y dylid newid cyfeiriadau at 'arbedion effeithlonrwydd' mewn adroddiadau i 'doriadau' er mwyn atgyfnerthu graddfa sefyllfa ariannol y Cyngor. Awgrymodd y Cynghorydd Johnson y gellid adlewyrchu hyn yng ngeirfa'r adroddiad.

Cytunodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i gyfeirio pryderon y Cynghorydd Gladys Healey ynglŷn â thipio anghyfreithlon mewn ardaloedd gwledig at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi.

Parthed cwestiynau pellach, byddai ymatebion ar wahân yn cael eu ceisio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag effeithlonrwydd a sgoriwyd yn goch ar gyfer contract Glanhau NEWydd mewn perthynas â chyfanswm gwerth y contract yn fras, ffocws trafodaethau a'r posibilrwydd o ganfod darparwr amgen. Ar y pwynt olaf, nodwyd y byddai'r un costau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth yn berthnasol ar gyfer darparwr amgen.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (mis 7), bod y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet.

## 75. PARTH BUDDSODDI AR GYFER SIR Y FFLINT A WRECSAM (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Rheolwr Gwasanaeth Menter ac Adfywio adroddiad (eitem rhif 10 ar y rhaglen) ar ddatblygiad Parth Buddsoddi ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam, a oedd yn un o ddau yn unig yng Nghymru. Yr oedd yr adroddiad yn nodi'r broses drwy bum 'Porth' y Llywodraeth gyda'r nod o dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer popeth er mwyn gallu dechrau ym mis Ebrill 2025.

Siaradodd Aelodau o blaid awgrym y Cynghorydd Claydon i gael gweithdy i gynorthwyo'r Aelodau i ddeall y goblygiadau.

Yn dilyn rhai pryderon a godwyd yn ystod y drafodaeth, cafwyd pleidlais ar y tri argymhelliad yn eu tro ac fe'u derbyniwyd, a nodwyd cais y Cynghorydd Ibbotson i gael cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y tri. Cefnogwyd argymhelliad pellach o blaid cael cyfarfod briffio ar gyfer yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Safleoedd Treth a nodwyd (Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam) a'r Ardaloedd Ardrethi a Gedwir (Porth Glannau Dyfrdwy ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam);

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Model Llywodraethu arfaethedig;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi Themâu'r Parth Buddsoddi (Arloesi, Sgiliau, a Chludiant) a'r ymyriadau lefel uchel, a fydd yn cael eu mireinio yn rhan o Borth 4; a

(d) Bod cyfarfod briffio ar y Parth Buddsoddi'n cael ei drefnu ar gyfer yr holl Aelodau.

*Ar y pwynt hwn, cafwyd seibiant byr yn y cyfarfod.*

## 76. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Dywedodd y Cadeirydd y byddai yna rywfaint o newid yn nhrefn y rhaglen er mwyn dwyn ymlaen eitem rhif 12 ar y rhaglen.

## 77. ADRODDIAD ARCHWILIO ASEDAU CYMUNEDOL A HAMDDEN (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd Rheolwr Corfforaethol y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau adroddiad (eitem rhif 12 ar y rhaglen) ar ganfyddiadau adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Asedau Cymunedol a Hamdden.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw sylwadau / arsylwadau i'w cyflwyno'n ôl i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol.

## 78. DIWEDDARIAD CANOL BLWYDDYN AR GYFLOGAETH A'R GWEITHLU (Dolen i'r recordiad

Cyflwynodd Rheolwr Corfforaethol Pobl a Datblygu Sefydliadol adroddiad (eitem rhif 11 ar y rhaglen) yn cynnwys data am y gweithlu a dadansoddiad o'r sefyllfa ar ganol blwyddyn 2024/25.

Yn ystod y drafodaeth, rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol eglurhad o drefniadau monitro ar gyfer gwariant gweithwyr asiantaeth, yn cynnwys adroddiadau i'r Cabinet.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Canol Blwyddyn 2024/25 ar y Gweithlu.

## 79. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi eu heithrio yn rhinwedd paragraffau 15 a 14, yn y drefn honno, o Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 80. RHAGLEN DRAWSNEWID

Cyflwynodd Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ystyried y meini prawf ar gyfer cynnwys prosiectau yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol ynghyd â nifer o brosiectau ychwanegol i'w cymeradwyo i gael eu derbyn.

Er bod y Cynghorydd Claydon yn nodi bod gwerth cymdeithasol wedi ei wreiddio yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau gan y Cyngor, gwnaeth gais bod crynodeb prosiect P6 yn cynnwys cyfeiriad penodol fel nodyn atgoffa o'r ymrwymiad hwn.

Parthed Argymhelliad 1, eglurwyd bod y meini prawf derbyn a ddangosir yn Nhabl 2 ar gyfer symud prosiect i fod yn 'fyw' yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol naill ai'n 1 a 4, neu'n 2 a 4, neu'n 3 a 4.  Ar y sail honno, cefnogwyd hyn.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pryderon a godwyd gan Aelodau ynglŷn â rhai prosiectau a rhoddodd sicrwydd y byddai unrhyw newidiadau i safonau gwasanaeth yn cael eu hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol cyn mynd ger bron y Cabinet.

Ar ôl trafodaeth bellach, cynigiodd y Cynghorydd Coggins Cogan welliant i Argymhelliad 2 i gefnogi symud prosiectau P2, P10, P6 a P20 yn eu blaenau, a bod

briff diamwys ar P12 yn cael ei ddychwelyd ger bron y Pwyllgor. Eiliwyd ef gan y Cynghorydd Gladys Healey ac, wedi cynnal pleidlais ar y mater, cymeradwywyd hyn.

Gwnaeth y Cynghorydd Ibbotson gais bod ei bleidlais ef yn erbyn Argymhelliad 2 yn cael ei gofnodi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn derbyn y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa Brosiectau sy'n gymwys i'w cynnwys yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol, yn amodol ar yr eglurhad a roddir; a

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn derbyn pedwar prosiect (P2, P6, P10 a P20) – pob un bellach wedi bodloni'r meini prawf – i'w cynnwys yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol, a bod briff diamwys ar brosiect P12 yn cael ei ddychwelyd ger bron y Pwyllgor hwn.

## 81. CAMBRIAN AQUATICS

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol a'r Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa ariannol parthed Cambrian Aquatics.

Cefnogwyd gwelliant i'r argymhelliad yn unfrydol i adlewyrchu pryderon ynglŷn â hyd oes yr adeilad.

**PENDERFYNWYD:**

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r cais ariannol a wnaed gan Cambrian Aquatics, bod y Pwyllgor yn darparu'r adborth canlynol i'r Cabinet ei ystyried:

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn ystyried ac yn derbyn cyngor ynglŷn ag a ddylid cynnal arolwg cyflwr ar yr adeilad i gadarnhau gwerth am arian.

## 82. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 2pm)

……………………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home